ADOLYGIAD O STRATEGAETH WEITHGYNHYRCHU Y LLYWODRAETH

Cystadlu yn yr Economi Byd-eang:
Y Strategaeth Weithgynhyrchu ar ôl Dwy Flynedd

Gweithgynhyrchu yn y DU

Mae gweithgynhyrchu yn rhan hanfodol o economi'r DU, sef un rhan o chwech o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, ac mae'n gyfrifol am fwy na hanner allforion y DU. Ond mae'r cystadlu byd-eang yn dwysáu ac mae'n rhaid i'n gweithgynhyrchwyr fanteisio ar ddatblygiadau mewn technolegau, ynghyd ag agoriadau ym marchnadoedd y byd, er mwyn aros ar y blaen.

Y Strategaeth Weithgynhyrchu

Cafodd Strategaeth Weithgynhyrchu y Llywodraeth ei chyhoeddi ym mis Mai 2002, gan nodi fframwaith ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth rhwng y Llywodraeth, diwydiant, undebau a'r cyfran-ddeiliaid allweddol. Nodwyd saith 'piler' a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer llwyddiant:

• ***Sefydlogrwydd Macroeconomaidd*** *– caniatáu i fusnesau cynllunio at y tymor hir*

• ***Buddsoddi*** *– defnyddio prosesau ac offer modern, effeithlon i wella'r perfformiad*

• ***Gwyddoniaeth ac arloesi*** *– helpu gweithgynhyrchwyr i elwa ar sylfaen gwyddoniaeth cryf y DU i greu cynhyrchion arloesol, uchel eu gwerth*

• ***Yr Arferion Gorau*** *– codi cynhyrchedd a chystadleurwydd drwy wella'n barhaus*

• ***Medrau ac Addysg*** *– meithrin gweithlu gweithgynhyrchu medrus ac arloesol*

• ***Isadeiledd Modern****– darparu rhwydwaith effeithiol o gludant a chyfathrebu*

• ***Y Fframwaith Marchnadoedd Cywir*** *– darparu'r amgylchedd busnes y mae ar weithgynhyrchu ei angen er mwyn cystadlu'n fyd-eang*

Mae'r Strategaeth Weithgynhyrchu ar gael yn
www.dti.gov.uk/manufacturing

Beth sydd wedi'i gyflawni?

Mae'r llwyddiannau ar draws yr ystod o flaenoriaethau yn y strategaeth yn cynnwys:

• *Lansio'r **Gwasanaeth Ymgynghorol Gweithgynhyrchu**, sydd wedi bod yn aruthrol o lwyddiannus wrth gynnig cyngor ymarferol ar hybu'r arferion gorau*

• *Cryfhau'r ddarpariaeth medrau a hyfforddiant i fodloni anghenion cyflogwyr a'u gweithwyr, gan gynnwys **Prentisiaethau Modern** a'r **Cynghorau Medrau Sector***

• *Cyflwyno'r **Credyd Treth Ymchwilio a Datblygu**, sydd wedi rhoi gwerth £600 miliwn o gymorth y llywodraeth i fusnesau ar gyfer Ymchwilio a Datblygu*

• *Buddsoddi'n drwm mewn gwaith ymchwil, i sicrhau bod ein sylfaen gwyddoniaeth yn parhau yn y rheng flaen ledled y byd*

• *Sefydlu **Timau Arloesi a Thwf** mewn sectorau gweithgynhyrchu allweddol, i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd strategol*

Adolygu'n cynnydd

Nododd y Strategaeth Weithgynhyrchu y fframwaith ar gyfer gweithredu – i'r Llywodraeth, diwydiant, undebau ac eraill – er mwyn sicrhau bod ein sector gweithgynhyrchu yn gwireddu ei botensial. Ddwy flynedd wedyn, am fod yna arolygon sy'n awgrymu bod rhagolygon y sector yn gwella, roeddem am bwyso a mesur yr hyn sydd wedi'i gyflawni, a'r hyn sydd eto i'w wneud.

Cystadlu yn yr Economi Byd-eang: Y Strategaeth Weithgynhyrchu ar ôl Dwy Flynedd

Ddwy flynedd ar ôl y strategaeth wreiddiol, rydym yn cyflwyno:

• ***Adolygiad o sylwadau'r cyfran-ddeiliaid** am y strategaeth, sy'n helpu i enwi'r blaenoriaethau ar gyfer symud ymlaen, a gyflwynwyd gan Nick Brayshaw, aelod annibynnol o Fwrdd y DTI a chadeirydd Cyngor Gweithgynhyrchu y CBI.*

• ***Trosolwg** fer ar y sector gweithgynhyrchu ers 2002.*

• *Set o **ddangosyddion perfformiad allweddol** hwylus, wedi'i chynllunio i fonitro llwyddiant y sector gweithgynhyrchu yn y DU, ac a gaiff ei diweddaru yn rheolaidd.*
• *Adolygiad o'r **hyn sydd wedi'i gyflawni** ym mhob un o'r saith piler ers Strategaeth Weithgynhyrchu 2002.*

• ***Cynllun gweithredu**, sy'n dwyn ynghyd y themâu allweddol sydd wedi'u henwi yn yr adolygiad, ac sy'n nodi blaenoriaethau'r Llywodraeth, busnes a'r cyfran-ddeiliaid allweddol wrth fwrw ymlaen.*

• *Adolygiad o weithgynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.*

Ein blaenoriaethau at y dyfodol

Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n enwi blaenoriaethau – i'r Llywodraeth yn ogystal ag i fusnes a'r cyfran-ddeiliaid allweddol – wrth fwrw ymlaen â'r agenda ar gyfer gweithgynhyrchu, gan gynnwys:

• *Hybu gwyddoniaeth ac arloesi*
• *Gweithleoedd medrus iawn, sy'n uchel eu perfformiad*
• *Hybu caffael cyhoeddus deallus*
• *Hybu buddsoddiadau sy'n ychwanegu llawer o werth*
• *Hybu'r arferion gorau*
• *Gwella'r ddealltwriaeth o weithgynhyrchu*
• *Gwell rheoleiddio*
• *Isadeiledd modern*

Bydd **Fforwm Gweithgynhyrchu** newydd, o dan gyd-arweiniad diwydiant a'r llywodraeth ac a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr y Llywodraeth, cyrff masnach, undebau a diwydiant, yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r blaenoriaethau sydd wedi'u henwi yn yr adroddiad, a chydlynu'r camau sydd i'w cymryd gan ddiwydiant, y cyfran-ddeiliaid a'r Llywodraeth.

"Yn y Strategaeth Weithgynhyrchu a gyhoeddwyd ddwy flynedd yn ôl, nodwyd fframwaith ar gyfer gweithredu – i'r Llywodraeth, diwydiant, undebau ac eraill – er mwyn sicrhau bod ein cwmnïau gweithgynhyrchu yn cystadlu'n llwyddiannus yn y farchnad fyd-eang gynyddol. Mae llawer iawn wedi'i gyflawni ers hynny.

Ddwy flynedd wedyn, bydd y Fforwm Gweithgynhyrchu newydd yn bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau sydd wedi'u henwi yn adolygiad y Strategaeth ac yn gweithredu fel llais cryf i ddiwydiant, gan adlewyrchu mor hollbwysig yw diwydiant i'n heconomi."

Patricia Hewitt,
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant

www.dti.gov.uk/manufacturing

• *Crynodeb gweithredol a thestun llawn y* ***Strategaeth Weithgynhyrchu*** *a'r* ***Strategaeth Weithgynhyrchu ar ôl Dwy Flynedd***

• *Archebu copïau printiedig o'r ddwy ddogfen am ddim*

• *Y newyddion diweddaraf yn rheolaidd am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol*

• *Manylion cysylltu Tîm Gweithgynhyrchu y DTI*

• *Cysylltiadau â gwybodaeth am y sector a ffynonellau cymorth i fusnesau*

dti

Y DTI sy'n ein gyrru at ein huchelgais o 'ffyniant i bawb' drwy weithio i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer llwyddiant busnes yn y DU. Rydym yn helpu pobl a chwmnïau i ddod yn fwy cynhyrchiol a hynny drwy hybu menter, arloesedd a chreadigrwydd.

Rydym yn hybu busnes y DU gartref a thros y môr. Rydym yn buddsoddi'n drwm mewn gwyddoniaeth a thechnoleg o'r radd flaenaf. Rydym yn diogelu hawliau pobl sy'n gweithio a defnyddwyr. Ac rydym yn sefyll dros farchnadoedd teg ac agored yn y DU, Ewrop a'r byd.